
ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES



# **Bron Afon Housing Association** *Torfaen*

## *Cymdeithas dai yn ennill y frwydr yn erbyn gwastraff diangen*

**Menter gymdeithasol yn ardal Torfaen, De Cymru yw Cymdeithas Dai Bron Afon. Maent yn berchen 8,300 o dai rhent a 900 eiddo ar brydles.**

Nhw yw un o brif gyflogwyr Torfaen gyda tua 500 o bobl ar y llyfrau. Sefydlwyd ym Mawrth 2008 pan drosglwyddwyd stoc dai'r awdurdod lleol i'w meddiant. Mae Bron Afon yn awyddus iawn i bob tenant gael llais yn y ffordd y rhedir y cwmni. Mae ganddynt 1,800 o denantiaid a phreswylwyr sy'n cymryd rhan weithredol ac yn helpu i lywio'r gwasanaethau. Fel un o'r cymdeithasau cymunedol cydfuddiannol a chydweithredol mwyaf yn y wlad, caiff unrhyw elw ei raeadru'n ôl i'r gymdeithas leol gan ychwanegu mwy fyth o werth, diogelu swyddi a chynnig cyfleoedd newydd.

Gweithia Bryn Afon yn galed i gwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru gan ail ffitio ac adnewyddu tua 25 eiddo bob wythnos. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod ceginau a stafelloedd ymolchi newydd sbon, uwchraddio systemau gwres canolog ac adnewyddu systemau trydanol. Mae rheoli a chynnal stoc mor niferus yn heriol wrth i'r Gymdeithas adfer ac adnewyddu tua 700 o dai gwag bob blwyddyn.

Daw tŷ'n wag pan fo'r tenant presennol yn symud allan. Mae tenantiaid yn gadael eu cartrefi am lawer o resymau. Efallai y dymunant symud i dŷ llai oherwydd y dreth newydd

## MANYLION Y PROSIECT

**Cymdeithas tai cymdeithasol flaengar yn rheoli gwastraff a helpu'r gymuned leol yn Nhorfaen**

**Themâu Arfer Gorau:**
- Ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff adeiladu yn lle ei anfon i'w dirlenwi

**Math o ddeunydd:**
- Gwastraff adeiladu a gwastraff cymysg




## TÎM Y PROSIECT

**Cleient:** **Bron Afon Housing Association - David Smith, Rheolwr Logisteg**

## KEY CONTACTS

Paul Jennings, CEWales
paul.jennings@cewales.org.uk



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



stafelloedd gwely neu am fod newid arall yn eu hamgylchiadau. Mae'n bosibl eu bod yn symud i gartref ymddeol neu i fyw gydag aelod o'r teulu. Pan ddaw eiddo'n wag mae dyletswydd statudol ar Bryn Afon fel y landlord i wneud yn siŵr fod pob dim yn ei le a phob atgyweiriad angenrheidiol wedi ei gwblhau cyn i denant newydd symud i mewn.

Pan ddaw eiddo'n wag mae'n gyfle ardderchog i'w wella a gosod systemau cyfoes a mwy effeithiol, fel ei fod yn cwrdd â'r safonau disgwyliedig cyn dyfodiad y tenant newydd.

Ond nid diwedd y daith yw gosod cegin ac ystafell ymolchi newydd. Mae'r gwaith yn parhau i gorff fel Bryn Afon oherwydd y ddyletswydd sydd arno i gael gwared o'r hen osodiadau ac unrhyw eiddo a adawyd gan y tenantiaid blaenorol – fel wardrobs, blancedi, gwelyau babis, rheiliau dillad ac ati – drwy eu cludo oddi yno cyn i'r gwaith cynnal ac adnewyddu ddechrau.

Mae Dave Smith, Rheolwr Logisteg Bron Afon, yn arwain tîm o weithwyr cydwybodol o'u canolfan yn Stad Ddiwydiannol Forge Hammer, Cwmbran. Mae'r tîm yn delio â phob math o wastraff a gesglir o eiddo gwag, a hefyd y gwastraff a gynhyrchir gan y tîm gwasanaethau wrth wneud gwaith cynnal a chadw cyffredinol. Yn gweithredu ers Medi 2013, mae'r tîm ailgylchu yn derbyn, didoli, ailddefnyddio neu ailgylchu amrywiaeth ryfeddol o wastraff, yn cynnwys boileri, hen goed, cardfwrdd, plastig a gwydr.

Mae Dave yn gontractwr adeiladu a rheolwr prosiectau profiadol sydd wedi hen arfer trafod a threfnu'n llwyddiannus gyda hwn a'r llall i gael y budd gorau i bawb.

Wrth symud i le arall mae tenantiaid yn aml yn gadel eiddo personol ar eu hôl yn eu hen dŷ. Yn yr oes sydd ohoni mae pobl yn casglu llawer iawn o drugareddau a gadael llawer ohonynt ar ôl i'w gwaredu pan symudant i fyw yn rhywle arall.

Yn aml bydd "Cydlynydd Tacluso Annibendod" Bryn Afon yn helpu tenantiaid i roi trefn ar eu heiddo a chael gwared o bethau nad ydynt eisiau eu cadw. I'w helpu i wella eu hamgylchiadau byw bydd y tîm tacluso annibendod hefyd yn helpu tenantiaid cyn iddynt symud allan. Drwy gydweithio'n agos â'r Swyddogion Cyswllt Tenantiaid, maent yn canfod yn gyflym lle sydd angen ei wagio, a lle y gellir arallgyfeirio gwastraff i'w ailddefnyddio.

Mae'r elusennau lleol TRAC 2 a Groundforce yn rhan bwysig o'r grŵp – yn casglu eitemau diangen a threfnu i'w dosbarthu a'u gwerthu drwy rwydwaith o siopau elusen. Mae gan bawb deimlad cryf o fod eisiau gwella'r amgylchedd, helpu'r gymuned a chydweithio fel tîm i ddatrys problemau. Gwirfoddolwyr yw'r rhan fwyaf o bobl TRAC 2, llawer ohonynt yn bobl ifanc ddi-waith sy'n helpu mewn siopau elusen a'r gwasanaeth banc bwyd a drefnir gan TRAC 2 i drigolion Torfaen.

Mae cyfanswm y gwastraff a gafodd ei dderbyn, ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu yn syfrdanol. Rhwng Medi 2013 ac Awst 2014 casglodd Bron Afon 560 tunnell o wastraff






cymysg a 246 tunnell o wastraff coed. Ac fe broseswyd 80 tunnell o sgrap gan gynhyrchu incwm o dros £35k.

Gellir ailddefnyddio llawer o eitemau cartref gan bobl mewn angen ac mae'r tîm yn gofalu fod pob eitem mewn cyflwr da a diogel. Rhoddir prawf PAT i nwyddau trydanol a'u hailddefnyddio lle bo modd. Os ydynt tu hwnt i'w hadfer, bydd gwirfoddolwyr arbenigol yn stripio bob eitem gan wahanu'r gwahanol gydrannau cyn eu gwerthu i fasnachwyr sgrap. Weithiau caiff eitemau fel gemwaith, watsus a phethau eraill casgliadwy eu gadael mewn eiddo gwag. Bydd y rhain yn cael eu rhoi i TRAC 2 i'w gwerthu yn y siop neu drwy e-bay. Defnyddir holl incwm y gwerthiannau hyn i dalu am weithgareddau awyr agored i deuluoedd mewn angen neu helpu i brynu eitemau hanfodol fel gwisgoedd ysgol.

Caiff hyd yn oed yr eitemau mwyaf di-nod eu hailddefnyddio – bydd y powdwr golchi a adawyd mewn eiddo gwag yn cael ei dywallt i ddrwm mawr a'i ddefnyddio i olchi dillad gwely a blancedi a adawyd cyn eu dosbarthu i bobl mewn angen.

Mae tîm bychan yn helpu Dave Smith i wneud y gwaith pwysig hwn i'r gymdeithas dai. Un aelod o'r tîm yw Faye Brand sy'n gweithio'n llawn amser er nad yw ond yn derbyn cyflog am gyfran o'i gwaith. Eglura Faye:

*"Deuthum i fyw i Dorfaen ar ôl dychwelyd o gyfandir Ewrop. Doeddwn i ddim yn teimlo'n dda ar y pryd ac nid oedd gennyf dŷ parhaol, eiddo na gwaith. Pan ddeuthum yn un o denantiaid Cymdeithas Dai Bron Afon dechreuodd pethau newid er gwell i mi a'm plant.*

*Roeddwn mor ddiolchgar am y cymorth a'r gefnogaeth a gefais fel imi ddechrau gwirfoddoli i'r Gymdeithas. Pan hysbysebwyd swydd ran amser yn y ganolfan ailgylchu, roeddwn wrth fy modd yn cael siawns i helpu.*

*Mae'r ganolfan mor brysur fel fy mod yn gweithio bron yn llawn amser ond gwnaf hynny'n wirfoddol am ran o'r wythnos. Teimlaf fy mod yn helpu achos teilwng iawn.*

*Pan welwch gymaint o wastraff a arbedwn rhag cael ei daflu i'r domen sbwriel, a'r holl deuluoedd a helpwyd gennym – mae hynny'n ddigon o wobr ynddo'i hun".*

Mae brwdfrydedd Faye yn cael ei rannu gan bawb sy'n rhan o'r prosiect ailgylchu, ac ar draws Cymdeithas Dai Bron Afon. Mae anogaeth i wirfoddoli ac mae tenant-wirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad pwysig a defnyddiol iawn yn cysylltu â thenantiaid neu yn rhoi aelodau mewn cysylltiad â rheolwyr y gymdeithas dai. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn rhedeg clybiau gwaith, gweithdai ysgrifennu CVs, ac yn cynnig gwasanaeth cwnsela.

Mae'r Gymdeithas yn aml yn cynnig lleoliadau i rai nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, ac i bobl ifanc sy'n ystyried dilyn prentisiaeth.

Mae'r ganolfan ailgylchu yn enghraifft ragorol o gydweithredu ac arloesi. Er yn gwmni masnachol llwyddiannus, creodd Cymdeithas Dai Bron Afon gyfleuster ardderchog wedi ei seilio ar theori'r economi gylchol.

Gofalodd Dave a'r tîm nad oes unrhyw eitemau defnyddiol yn cael eu taflu ffwrdd. Lle bynnag y bo modd caiff eitemau sy'n parhau i fod yn ddefnyddiol eu trosglwyddo i elusennau i'w rhannu i drigolion lleol ym mhob rhan o Dorfaen.

Cynorthwywyd llu mawr o deuluoedd ac arbedwyd yr angen i yrru cannoedd o dunelli o wastraff i'w dirlenwi. Mae gofal Bron Afon dros eu heiddo, eu tenant-aelodau a'u deunydd gwastraff, yn enghraifft nodedig o'r arfer gorau ac mae'n dangos gymaint y gellir ei gyflawni gan dimau bach.

Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru
2il Lawr, Cwrt Longcross / 47 Heol Casnewydd / Caerdydd CF24 0AD
T: 029 20 493322 F: 029 20 493233
E: info@cewales.org.uk

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES